22060340

IB DIPLOMA PROGRAMME
PROGRAMME DU DIPLÔME DU BI
PROGRAMA DEL DIPLOMA DEL BI

**WELSH A1 – STANDARD LEVEL – PAPER 2**
**GALLOIS A1 – NIVEAU MOYEN – ÉPREUVE 2**
**GALÉS A1 – NIVEL MEDIO – PRUEBA 2**

Tuesday 23 May 2006 (afternoon)
Mardi 23 mai 2006 (après-midi)
Martes 23 de mayo de 2006 (tarde)

1 hour 30 minutes / 1 heure 30 minutes / 1 hora 30 minutos

---

INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

- Do not open this examination paper until instructed to do so.
- Answer one essay question only. You must base your answer on at least two of the Part 3 works you have studied. You may include in your answer a discussion of a Part 2 work of the same genre if relevant. Answers which are not based on a discussion of at least two Part 3 works will not score high marks.

INSTRUCTIONS DESTINÉES AUX CANDIDATS

- N'ouvrez pas cette épreuve avant d'y être autorisé(e).
- Traitez un seul sujet de composition. Vous devez baser votre réponse sur au moins deux des œuvres de la 3e partie que vous avez étudiées. Le cas échéant, vous pouvez inclure dans votre réponse une discussion sur une œuvre du même genre littéraire étudiée dans la 2e partie du programme. Les réponses qui ne sont pas basées sur au moins deux des œuvres de la 3e partie n'obtiendront pas une note élevée.

INSTRUCCIONES PARA LOS ALUMNOS

- No abra esta prueba hasta que se lo autoricen.
- Elija un tema de redacción. Su respuesta deberá basarse en al menos dos de las obras estudiadas en la Parte 3. Se podrán hacer comentarios sobre una obra de la Parte 2 del mismo género, si fuera necesario. Las respuestas que no incluyan una discusión sobre al menos dos obras de la Parte 3 no recibirán notas altas.

*Ysgrifennwch draethawd ar **un** o'r cwestiynau hyn. Rhaid ichi seilio eich ateb ar o leiaf ddau o'r gweithiau rhan 3 a astudiwyd gennych. Yn eich ateb cewch gynnwys trafodaeth ar waith rhan 2 o'r un genre, os yw'n berthnasol. **Ni** roddir marciau uchel am atebion nad ydynt wedi eu seilio ar o leiaf ddau o'r gweithiau rhan 3.*

**Barddoniaeth**

**1.** *Naill ai*

(a) "Mae cerddi da yn creu'r ymdeimlad o empathi yn y darllenydd sydd fel arfer yn arwain at ei werthfawrogiad o'r cerddi hynny." I ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae'r cerddi y gwnaethoch eu hastudio wedi creu'r ymdeimlad hwnnw ynddo chi?

*neu*

(b) Er mwyn gwerthfawrogi'r cerddi yr ydych wedi eu darllen, a ydy hi'n angenrheidiol i'r darllenydd wybod am ddiddordebau a phroblemau'r cyfnod yr ysgrifennwyd hwy?

**Drama**

**2.** *Naill ai*

(a) Ymdriniwch â rhai o'r prif gymeriadau yn y dramâu a astudiwyd gennych gan nodi'r modd y mae'r awdur yn eu portreadu ac yn ymdrin â'u cryfderau a'u gwendidau.

*neu*

(b) Dadansoddwch adeiladwaith y dramâu a astudiwyd gennych. Dangoswch hefyd i ba raddau y mae'r adeiladwaith hwnnw yn arwain at ddiweddglo sy'n bodloni'r darllenydd.

**Nofel**

**3.** *Naill ai*

(a) Math o gelwydd sy'n dweud y gwir yw nofel. I ba raddau ac ym mha ffyrdd y gellir cymhwyso'r gosodiad hwn mewn perthynas â'r gweithiau a astudiwyd gennych?

*neu*

(b) Disgrifiwch swyddogaethau'r prif gymeriadau yn natblygiad plot y nofelau a ddarllenoch, gan nodi pa mor gredadwy ydynt fel pobl go-iawn.

**Storïau Byrion**

**4.** *Naill ai*

(a) Ystyriwch a chymharwch sut y cyflwynir y themâu a'r is-themâu yn y storïau a astudiwyd gennych.

*neu*

(b) Mae'n rhaid i stori fer dda ddweud rhywbeth pwysig am fywyd? Trafodwch y gosodiad gan gyfeirio at y storïau a astudiwyd gennych.

**Cofiant a Hunangofiant**

**5.** *Naill ai*

(a) Beth mae'r hunangofiannau a'r cofiannau a ddarllenoch yn ei ddweud wrthych am y newid a fu yn ysbryd a delfrydau cymdeithas arbennig?

*neu*

(b) Cymharwch gryfderau'r hunangofiannau a'r cofiannau a astudiwyd gennych.

**Cwestiynau Cyffredinol**

**6.** *Naill ai*

(a) Gan gyfeirio at enghreifftiau penodol, trafodwch agweddau gwahanol y prif gymeriadau i'r gymdeithas y maent yn byw ynddi. Disgwylir i chi drafod sut y dylanwada'r gymdeithas ar weithredoedd y cymeriadau gan nodi'r un pryd unrhyw densiynau a ddigwydd rhwng y cymeriadau a'u cymdeithas.

*neu*

(b) Dewiswch un elfen lenyddol gyffredin yn y gweithiau a astudiwyd gennych ac ystyriwch sut y defnyddiwyd yr elfen honno gan yr awduron yn y gweithiau hynny.

*neu*

(c) "Mynegiant o brofiad personol unigryw yw llenyddiaeth, a phrofiad un, os yw'n gywir, mor dderbyniol ag un arall er iddynt fod mor wahanol â'i gilydd." I ba raddau y gellir cytuno â'r gosodiad hwn mewn perthynas â'r gweithiau a ddarllenoch?

*neu*

(ch) Ai rhoi pleser a difyrrwch yw prif nod llenyddiaeth? Rhoddwch eich ymateb personol eich hun i'r gosodiad gan gyfeirio at y gweithiau a astudiwyd gennych.